OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 3101 (Cy.314)

# CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU A LLOEGR
# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU A LLOEGR
# FFIOEDD A THALIADAU, CYMRU A LLOEGR

## Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012

*Gwnaed - - - - 12 Rhagfyr 2012*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 14(3) a 15(1) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011(**1**) ("y Ddeddf").

At ddibenion adran 16 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru o'r farn—

(a) bod y Gorchymyn hwn yn ateb y diben y cyfeirir ato yn adran 16(1) o'r Ddeddf; a

(b) bod yr amodau yn adran 16(2)(a) a (b) o'r Ddeddf wedi eu bodloni.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf.

Mae drafft o'r Gorchymyn hwn a dogfen esboniadol sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 19(2) o'r Ddeddf wedi eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 19(1) ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeng wythnos fel a bennir yn adran 19(3). Yn unol ag adran 19(4) o'r Ddeddf, mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl diwedd y cyfnod o 40 niwrnod y cyfeirir ato yn y ddarpariaeth honno.

### Enwi, cychwyn a rhychwantu

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012.

(2) Daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 2011 p.24.

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991(**2**);

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 86(1) o Ddeddf 1991 (aseswyr gorfodi ansawdd dŵr)(**3**);

ystyr "cyflenwr dŵr perthnasol" ("*relevant water supplier*") yw—

(a) ymgymerwr dŵr(**4**) y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru; neu

(b) cwmni sy'n ddeiliad trwydded cyflenwi dŵr o fewn ystyr adran 17A o Ddeddf 1991 (trwyddedu cyflenwyr dŵr) sy'n defnyddio system gyflenwi unrhyw ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

ystyr "Prif Arolygydd" ("*Chief Inspector*") yw'r person a ddynodir felly o dan adran 86(1B) o Ddeddf 1991; a

rhaid dehongli "system gyflenwi" ("*supply system*") yn unol ag adran 17B(5) o Ddeddf 1991.

(2) Yn y Gorchymyn hwn bydd unrhyw gyfeiriadau at "y tabl" ("*the table*") yn gyfeiriadau at y tabl yn yr Atodlen.

### Y cyfnod y caniateir codi tâl amdano

**3.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn rhaid cyfrifo nifer y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt yn seiliedig ar y fformiwla canlynol—

$$C = \frac{T}{7}$$

pan—

"C" yw nifer y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt; a

"A" yw cyfanswm yr amser (a fynegir mewn oriau) pan fo arolygydd yn cyflawni swyddogaeth a bennir ym mharagraff (b), (c) neu (d) o golofn 1 y tabl ar ddiwrnod calendr.

(2) At ddibenion cyfrifo "A" os bydd mwy nag un arolygydd yn cyflawni'r swyddogaeth, rhaid agregu cyfanswm yr amser a dreuliwyd gan bob arolygydd.

### Ffioedd

**4.**—(1) Caiff y Prif Arolygydd godi ffi ar gyflenwr dŵr perthnasol, a honno'n daladwy pan geir anfoneb ar ei chyfer, am arfer swyddogaethau arolygydd o dan adran 86(2) o Ddeddf 1991 fel y'u pennir yng ngholofn 1 o'r tabl.

(2) Rhaid i'r Prif Arolygydd benderfynu ar y ffi yn unol â'r cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl.

(3) Rhaid i'r cyfraddau sydd i'w cymhwyso wrth wneud penderfyniad o ran y ffi y cyfeirir ati yng ngholofn 2 o'r tabl gael eu pennu gan y Prif Arolygydd ac—

(a) cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru;

---

(**2**) 1991 p.56.

(**3**) Diwygiwyd adran 86 gan adran 57 ac adran 101(1) o Ddeddf Dŵr 2003 p.37 a pharagraff 27 o Atodlen 8 iddi. Y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Gwnaed y swyddogaethau o dan adran 86 (ac eithrio is-adran (1A)) yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") i'r un graddau ag y mae'r pwerau, y dyletswyddau a'r darpariaethau eraill y mae adran 86 yn gymwys iddynt yn arferadwy gan y Cynulliad drwy erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ("y Gorchymyn"); gweler y cofnod yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn ar gyfer Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff (e) o Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) ac fel y'i diwygiwyd gan adran 100(2) o Ddeddf Dŵr 2003. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**4**) *Gweler* Atodlen 1 i Ddeddf Ddehongli 1978 p.30.

(b) cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru (rhaid i hynny gynnwys eu cyhoeddi ar wefan); ac

(c) cael eu hadolygu gan Weinidogion Cymru ar neu cyn 30 Mehefin ym mhob blwyddyn galendr ar ôl y flwyddyn galendr pan gymeradwywyd y ffi ddiwethaf gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (a).

(4) Rhaid i unrhyw ffioedd a geir o dan y Gorchymyn hwn gael eu talu i'r Gronfa Gyfunol.

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

12 Rhagfyr 2012

## YR ATODLEN

Erthygl 4

## Y FFIOEDD AM GYFLAWNI'R SWYDDOGAETHAU O DAN ADRAN 86 O DDEDDF Y DIWYDIANT DŴR 1991

**Tabl**

| *1*<br>*Y Swyddogaeth* | *2*<br>*Y Ffi* |
|---|---|
| (a) (a) Gwirio bod y trefniadau samplu a dadansoddi ar gyfer samplau dŵr a gesglir gan y cyflenwr dŵr perthnasol yn cydymffurfio â'r canlynol—<br>(i) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010(**5**);<br>(ii) adran 68 o Ddeddf 1991; a<br>(iii) unrhyw ofynion am ddata sampl y mae'n ofynnol eu darparu o dan adran 202 o Ddeddf 1991. | Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd—<br>(i) a bennwyd ar gyfer pob grŵp o 100 o ganlyniadau samplau dŵr a geir ac a wirir; a<br>(ii) wedi ei lluosi â chyfanswm pob grŵp o'r fath. |
| (b) (b) Gwirio—<br>(i) bod trefniadau rheoli cyflenwad dŵr y cyflenwr dŵr perthnasol yn cydymffurfio â'r canlynol—<br>(aa) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010;<br>(bb) adran 37 o Ddeddf 1991;<br>(cc) adran 68 o Ddeddf 1991; a<br>(ii) bod y cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad gan Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth am y trefniadau hyn o dan adran 202 o Ddeddf 1991. | Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd—<br>(i) wedi ei phennu fesul cyfnod y caniateir codi tâl amdano; a<br>(ii) wedi ei lluosi â chyfanswm y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt a dreuliwyd yn cyflawni'r swyddogaeth. |
| (c) (c) Mewn perthynas â chyflenwr dŵr perthnasol—<br>(i) Ymchwilio i ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall pan fo unrhyw un neu rai o'r materion hynny yn dangos ei bod yn bosibl nad yw'r cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio â'r canlynol— | |

(**5**) O.S. 2010/994 (Cy.99) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/14 (Cy.7).

| *1*<br>*Y Swyddogaeth* | *2*<br>*Y Ffi* |
|---|---|
| (aa) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010;<br>(bb) adran 37 o Ddeddf 1991;<br>(cc) adran 68 o Ddeddf 1991; a<br>(ii) gwirio bod hysbysiad wedi ei roi am ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall o'r fath gan y cyflenwr dŵr perthnasol yn unol ag unrhyw ofyniad gan Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth o'r fath o dan adran 202 o Ddeddf 1991. | |
| (d) (d) Mewn perthynas â chyflenwr dŵr perthnasol—<br>(i) ymchwilio i gwynion gan ddefnyddwyr am ansawdd neu ddigonolrwydd dŵr lle bod y gwyn yn dangos ei bod yn bosibl nad yw'r cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio â'r canlynol—<br>(aa) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010;<br>(bb) adran 37 o Ddeddf 1991;<br>(cc) adran 68 o Ddeddf 1991; a<br>(ii) gwirio bod y cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad gan Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth am gwynion o'r fath o dan adran 202 o Ddeddf 1991. | Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd—<br>(i) wedi ei phennu fesul cyfnod y caniateir codi tâl amdano; a<br>(ii) wedi ei lluosi â chyfanswm y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt a dreuliwyd yn cyflawni'r swyddogaeth. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ffioedd fod yn daladwy gan gyflenwr dŵr perthnasol am gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 gan arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno. Mae'r swyddogaethau yn ymwneud â'r ymchwiliadau a'r gofynion adrodd a ganlyn—

(a) gwirio trefniadau samplu a dadansoddi dŵr;

(b) gwirio trefniadau rheoli cyflenwad dŵr;

(c) ymchwilio i ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall sy'n deillio o ansawdd neu ddigonolrwydd dŵr;

(d) gwirio'r dull o ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr am ansawdd dŵr a'r dull o adrodd ar y cwynion hynny; ac

(e) gwirio cydymffurfedd â gofynion i roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau a'r materion hyn neu i'w hysbysu am y trefniadau a'r materion hyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r amgylchiadau pan fo ffioedd yn daladwy ac yn cael eu cymeradwyo, eu cyhoeddi a'u hadolygu a'r modd o wneud hynny (erthygl 4 a'r Atodlen).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.